



Gwobr Lefel 3 City and Guilds mewn Addysg a Hyfforddiant (6502) (Rhan-amser)

Mae Gwobr Lefel 3 City and Guilds mewn Addysg a Hyfforddiant yn gyflwyniad i addysgu a fydd yn rhoi cipolwg ar rolau, cyfrifoldebau a pherthnasoedd mewn addysg a hyfforddiant. Bydd yn eich galluogi i gynllunio a darparu sesiwn addysgu gynhwysol a rhoi mewnwelediad i sut i asesu a rhoi adborth adeiladol.

Oriau Dysgu dan Arweiniad = 48awr (24 wythnos x 2 awr) neu (16 wythnos x 3 awr)

Cysylltwch â: business@nptcgroup.ac.uk i gael mwy o wybodaeth

Gofynion Mynediad

Nid oes unrhyw ofynion mynediad penodol ac nid oes angen i ymgeiswyr gael oriau ymarfer addysgu i gyflawni'r cymhwyster.

Rhagolygon Gyrfa

Gall y cymhwyster hwn helpu ymgeiswyr i symud ymlaen mewn rolau addysgu / hyfforddi mewn ystod eang o sefydliadau yn y sector dysgu gydol oes. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Sefydliadau Sector Cyhoeddus
- Sefydliadau Sector Preifat
- Addysg Bellach, Addysg Oedolion a Chymuned.

Gall ymgeiswyr sy'n cwblhau'r cymhwyster yn llwyddiannus, os gallant fodloni'r gofynion mynediad ychwanegol (Isafswm Lefel 2 Saesneg a Mathemateg, cadarnhau lleoliad addysgu, DBS a mentor wedi'i ddyrannu), symud ymlaen i gyflawni'r cymwysterau canlynol:

- Tystysgrif Broffesiynol Lefel 5 mewn Addysg, Addysg a Hyfforddiant Ôl-Orfodol



Modiwlau'r cwrs

Mae'r cymhwyster yn cwmpasu'r wybodaeth a'r sgiliau sy'n ofynnol gan athrawon yn y sector Addysg Bellach a sgiliau, megis:

- rolau, cyfrifoldebau a pherthnasoedd mewn addysg a hyfforddiant
- dulliau addysgu a dysgu cynhwysol
- asesiad o ddysgwyr
- hwyluso dysgu a datblygu i unigolion
- hwyluso dysgu a datblygu mewn grwpiau
- deall egwyddorion ac arferion asesu

Y nod yw rhoi hyder a gwybodaeth i ddysgwyr ddysgu. Erbyn diwedd y cwrs bydd dysgwyr yn deall sut i sefydlu amgylchedd dysgu effeithiol a chynhwysol. Mae pawb ar y cwrs yn dylunio, cyflwyno a gwerthuso micro-addysgu 30 munud, gan gael adborth amhrisiadwy gan eu hathro a'u cyfoedion.

Asesiad

Yn ogystal â chwblhau'r asesiadau ysgrifenedig, bydd gofyn i ymgeiswyr gyflwyno gwrs ficro-ddysgu 15-30 munud.

DULL ASTUDIO

PT

LLEOLIAD HYD Y CWRS

1Y